

# CYFANSODDIAD GWYL NEWYDD

## 1 ENW Enw'r gymdeithas yw **Gŵyl Newydd**

## 2 DIBENION

Diben gweithgareddau'r gymdeithas yw i hyrwyddo'r Gymraeg yng nghymunedau Casnewydd a'r ardaloedd cyfagos a bydd busnes y grŵp yn cael ei gynnal trwy'r Gymraeg yn bennaf ac yn cefnogi dysgwyr a chefnogwyr y Gymraeg ar bob adeg.

### Nodau'r Grŵp fydd:

- (1) Trefnu gwyliau a digwyddiadau celfyddydol a llenyddol ar gyfer y gymuned leol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- (2) Annog pobl leol o bob oedran i gymryd rhan ym mharatoadau a gweithgareddau'r wyl.
- (3) Arddangos ystod o ddigwyddiadau celfyddydol a llenyddol y gall pobl o bob oed eu mwynhau
- (4) Cefnogi a datblygu cyfranogiad a mwynhad cerddoriaeth a chelfyddyd fyw ar lawr gwlad
- (5) Rhannu a datblygu sgiliau gwirfoddolwyr a chyfranogwyr

### Pwerau

Er mwyn cyflawni ei nodau mae'n bosibl y bydd y Grŵp yn:

- (6) Codi arian drwy gyfraniadau a grantiau.
- (7) Chwilio a derbyn rhoddion o gynhyrchion neu wasanaethau
- (8) Sicrhau asedau, nwyddau a gwasanaethau
- (9) Benthyg a llogi offer
- (10) Agor cyfrifon banc
- (11) Prynus yswiriant
- (12) Casglu a storio data yn ôl y gyfraith ddiweddaraf
- (13) Cyflogi staff neu wasanaethau yn ôl yr angen
- (14) Trefnu hyfforddiant
- (15) Trefnu digwyddiadau
- (16) Gweithio gyda grwpiau a sefydliadau eraill a chyfnewid gwybodaeth
- (17) Gwneud unrhyw beth sy'n gyfreithlon a fydd yn ei helpu i gyflawni ei nodau

## 3 YMDDIRIEDOLWYR

Caiffy gymdeithas ei rheoli gan bwylgor o ymddiriedolwyr a benodir yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol (CCB) y gymdeithas i'w gynnal ym mhedwar mis olaf y flwyddyn galendr.

## 4 CYFLAWNIR DIBENION

Er mwyn cyflawni'r dibenion elusennol, mae gan yr ymddiriedolwyr y pŵer i:

- (1) codi arian, derbyn grantiau a chyfraniadau

- (2) defnyddio arian i gyflawni gwaith y gymdeithas
- (3) cydweithredu ag elusennau eraill sydd â dibenion tebyg, a'u cefnogi
- (4) gwneud unrhyw beth arall o fewn y gyfraith sy'n ofynnol i gyflawni'r dibenion

## 5 AELODAETH

Byddaelodaeth gan y gymdeithas. Gall pobl sy'n cefnogi gwaith y gymdeithas ac sy'n 18 oed neu'n hŷn wneud cais i'r ymddiriedolwyr i fod yn aelod. Ar ôl cael eich derbyn gan yr ymddiriedolwyr, byddaelodaeth yn para 3 blynedd a gellir ei hadnewyddu. Bydd yr ymddiriedolwyr yn cadw rhestr aelodaeth gyfoes.

Gall yr ymddiriedolwyr derfynu aelodaeth unigolyn os ydynt yn credu ei fod er lles gorau'r elusen. Mae hawl gan yr aelod i gael ei glywed gan yr ymddiriedolwyr cyn gwneud y penderfyniad a gall ddod yng nghwmni ffrind.

## 6 CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL - CCB

- (1) Rhaid i'r CCB gael ei gynnal bob blwyddyn, gan roi 14 diwrnod o rybudd i bob aelod yn dweud wrthynt beth sydd ar yr agenda. Rhaid cadw cofnodion o'r CCB.
- (2) Rhaid bod o leiaf 5 aelod yn bresennol yn y CCB.
- (3) Bydd un bleidlais gan bob aelod.
- (4) Bydd yr ymddiriedolwyr yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol a chyfrifon.
- (5) Gall unrhyw aelod gynnig ei hun i'w ethol fel ymddiriedolwr.
- (6) Bydd yr aelodau yn ethol rhwng 3 a 10 ymddiriedolwr i wasanaethu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Byddant yn ymddeol yn y CCB nesaf ond gallant sefyll i gael eu hailethol.

## 7 CYFARFODYDD YMDDIRIEDOLWYR

- (1) Rhaid i'r ymddiriedolwyr gynnal o leiaf 3 chyfarfod bob blwyddyn. Yn ystod eu cyfarfod cyntaf ar ôl y CCB byddant yn ethol cadeirydd, trysorydd ac ysgrifennydd. Gall ymddiriedolwyr weithredu drwy benderfyniad y mwyafrif.
- (2) Rhaid i o leiaf 3 ymddiriedolwr fod yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn gallu gwneud penderfyniadau. Cedwir cofnodion ar gyfer pob cyfarfod.
- (3) Os oes gwrthdaro buddiannau gan yr ymddiriedolwyr rhaid iddynt ddatgan hyn a gadael y cyfarfod tra bod y mater hwn yn cael ei draffod neu ei benderfynu.
- (4) Yn ystod y flwyddyn, gall yr ymddiriedolwyr benodi hyd at 2 ymddiriedolwr ychwanegol. Byddant yn ymddiswyddo yn y CCB nesaf.
- (5) Gall yr ymddiriedolwyr lunio rheolau ychwanegol rhesymol i helpu rhedeg y gymdeithas. Ni all y rheolau hyn fod yn groes i'r cyfansoddiad hwn neu'r gyfraith.

## 8 ARIAN AC EIDDO

- (1) Rhaid defnyddio arian ac eiddo ar gyfer dibenion y gymdeithas yn unig.
- (2) Rhaid i'r ymddiriedolwyr gadw cyfrifon. Gall unrhyw un weld y cyfrifon blynnyddol diweddaraf ar gais.
- (3) Ni all ymddiriedolwyr dderbyn unrhyw arian neu eiddo gan y gymdeithas, ac eithrio i ad-dalu mân dreuliau rhesymol.
- (4) Rhaid dal yr arian yng nghyfrif banc y gymdeithas. Rhaid i bob taliad gael ei awdurdodi gan 2 ymddiriedolwr.
- (5) **Prynu gwasanaethau a chynnyrch:** Wrth brynu gwasanaethau a chynnyrch, rhaid sicrhau gwerth am arian ac felly bydd rheolau arferol pwrcasu yn weithredol, lle dylid holi am 3 phris yn ôl briff a gwneud penderfyniad fel pwylgor ar y gwerth gorau.

## 9 CYFARFODYDD CYFFREDINOL

Os yw'r ymddiriedolwyr yn teimlo bod angen newid y cyfansoddiad, neu ddirwyn y gymdeithas i ben, rhaid iddynt alw Cyfarfod Cyffredinol er mwyn i'r aelodaeth allu gwneud y penderfyniad. Rhaid i'r ymddiriedolwyr alw Cyfarfod Cyffredinol hefyd os ydynt yn derbyn cais ysgrifenedig gan y mwyafrif o'r aelodau. Rhaid rhoi 14 diwrnod o rybudd i bob aelod ac esbonio'r rheswm dros gynnal y cyfarfod. Rhaid cael mwyafrif o ddwy ran o dair ar gyfer pob penderfyniad. Rhaid cadw cofnodion.

- (1) **Dirwyn i ben** - rhaid i unrhyw arian neu eiddo sy'n weddill ar ôl talu dyledion gael ei roi i elusen gyda dibenion tebyg i'r elusen hon.
- (2) **Newidiadau i'r Cyfansoddiad** - gellir eu gwneud mewn CCB neu Gyfarfodydd Cyffredinol. Ni ellir gwneud unrhyw newid a fyddai'n golygu nad yw'r sefydliad yn elusen mwyach.
- (3) **Cyfarfod Cyffredinol** - yn cael ei alw ar gais ysgrifenedig gan y mwyafrif o'r aelodau.
- (4) Gall ymddiriedolwyr alw Cyfarfod Cyffredinol hefyd i ymgynghori â'r aelodaeth.

## 10 SEFYDLU'R ELUSEN

Mabwysiadwyd y cyfansoddiad hwn ar Rhagfyr 6ed 2017 gan y rhai sydd wedi nodi isod. Y bobl yma fydd swyddogion cyntaf y gymdeithas a nhw fydd yr ymddiriedolwyr tan y CCB, y mae'n rhaid ei gynnal cyn pen blwyddyn o'r dyddiad hwn.

ENW	SWYDD
Jamie James	Cadeirydd / Chair
Robert Jones	Trysorydd / Treasurer
Catrin Devonald	Is-gadeirydd / vice chair
Elin Maher	Ysgrifennydd / secretary



# THE CONSTITUTION OF GŴYL NEWYDD

**1 NAME** The name of the association is GŴYL NEWYDD

## 2 PURPOSE

The association's activities is to promote the Welsh language in the communities of Newport and the surrounding areas and the association's business will be conducted mainly through Welsh language and at all times will support learners and supporters of the Welsh language.

### **The aims of the association will be:**

- (1) Organize festivals and arts and literary events for the local community through the medium of Welsh.
- (2) Encourage local people of all ages to participate in the preparations and activities of the festival.
- (3) Demonstrate a range of artistic and literary events that people of all ages can enjoy
- (4) Support and develop participation and enjoyment of live music and art at a ground roots level
- (5) Share and develop volunteer skills and participants

### **Powers**

In order to achieve its goals the association may:

- (6) Fundraise through donations and grants.
- (7) Search and accept gifts of products or services
- (8) Secure assets, goods and services
- (9) Borrow and hire equipment
- (10) Open bank accounts
- (11) Buy insurance
- (12) Data collection and storage according to most recent laws
- (13) Employ staff or services as necessary
- (14) Organize training
- (15) Organize events
- (16) Work with other associations and organizations and exchange information
- (17) Do anything that is lawful that will help achieve its goals

## 3 TRUSTEES

The association will be managed by a committee of trustees appointed at the association's Annual General Meeting (AGM) to be held in the final four months of the calendar year.

## 4 DELIVERING THE PURPOSES

In order to fulfill the association's purposes, the trustees have the power to:

- (1) Fundraise, receive grants and contributions
- (2) Use money to carry out the association's work
- (3) Cooperate with and support other charities with similar purposes
- (4) Do anything else within the law required to fulfill the purposes

## **5 MEMBERSHIP**

The association will have a membership. People who support the work of the association who are 18 years of age or over can apply to the trustees to become a member. Once accepted by the trustees, membership will last for 3 years and may be renewed. The trustees will keep a current membership list.

The trustees can terminate an individual's membership if they believe it is in the best interests of the association. The member is entitled to be heard by the trustees before making the decision and can become accompanied by a friend.

## **6 ANNUAL GENERAL MEETING - AGM**

- (1) The AGM must be held annually, giving each member 14 days notice telling them what is on the agenda. Records of the AGM must be kept.
- (2) The AGM must have at least 5 members present.
- (3) Each member will have one vote.
- (4) The trustees will submit the annual report and accounts.
- (5) Any member may propose himself to be elected as a trustee.
- (6) Members will elect between 3 and 10 trustees to serve for next year. They retire at the next AGM but can stand for re-election.

## **7 TRUSTEE MEETINGS**

- (1) The trustees must hold at least 3 meetings annually. During their first meeting after the AGM they will elect a chairman, treasurer and secretary. Trustees can act by majority decision.
- (2) At least 3 trustees must attend the meeting so that decisions can be made. Records are kept for each meeting.
- (3) If there are conflicts of interest from the trustees they must declare this and leave the meeting while this matter is being discussed or determined.
- (4) During the year, the trustees can appoint up to 2 additional trustees. They will resign at the next AGM.
- (5) The trustees can make reasonable additional rules to help run the association. These rules can not be contrary to this constitution or the law.

## **8 FINANCE AND PROPERTY**

- (1) Money and property must only be used for the purposes of the association.
- (2) The trustees must keep accounts. Anyone can see the latest annual accounts on request.
- (3) Trustees can not accept any money or property from the association, except for repayment of reasonable expenses.
- (4) The money must be held in the association's bank account. All transactions must be authorised by 2 trustees.
- (5) Purchasing services and products: When purchasing services and products, value for money must be secured and, therefore, normal procurement rules will be in place, where 3 prices should be quoted according to a brief and decision making as a committee of best value.

## **9 GENERAL MEETINGS**

If the trustees feel that the constitution needs to be changed, or to end the association, they must call a General Meeting so that the membership can make the decision. The trustees must also call a General Meeting if they receive a written request from most members. All members must be given 14 days notice and explain the reason for holding the meeting. A majority of two thirds must be made for each decision. Records must be kept.

- (1) Expires - any remaining money or property after paying debts must be given to a association with similar purposes to this association.
- (2) Changes to the Constitution - can be made at the AGM or General Meetings. No change can be made that would mean that the organization is no longer a association.
- (3) General Meeting - will be called on a written request from most members.
- (4) Trustees can also call a General Meeting to consult the membership.

## **10 ESTABLISHMENT OF THE ASSOCIATION**

This constitution was adopted on December 6th 2017 by those listed below. These people will be the first officers of the association and will be the trustees until the AGM, which must be held within one year of this date.

<b>ENW / NAME</b>	<b>SWYDD / POSITION</b>
Jamie James	Cadeirydd / Chair
Robert Jones	Trysorydd / Treasurer
Catrin Devonald	Is-gadeirydd / vice chair
Elin Maher	Ysgrifennydd / secretary